# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-03-10)

**Dyddiad: 4 Chwefror 2010**
**Amser: 13:00 – 15:00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mick Bates, Sir Drefaldwyn
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Aled Elwyn Jones, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig
Jane Davidson, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Rory O'Sullivan, Cyfarwyddwr, Materion Gwledig
Gerry Quarrell, Pennaeth yr Uned Natur, Mynediad a'r Môr
Havard Prosser, Prif Gynghorwr Gwyddonol Amgylcheddol

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

### 2: Dyfodol ucheldiroedd yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Elin Jones a Rory O'Sullivan i'r cyfarfod a gwahoddodd y Gweinidog i roi ei sylwadau cychwynnol. Bu'r Aelodau'n holi'r Gweinidog.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth am y gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth Datblygu Amaethyddol a Chynghori i sicrhau codiad o 20% yn y taliadau ar gyfer ffermydd mewn Ardaloedd Llai Ffafriol.

### 3: Dyfodol ucheldiroedd yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Jane Davidson, Gerry Quarrell a Havard Prosser i'r cyfarfod a gwahoddodd y Gweinidog i roi ei sylwadau cychwynnol. Bu'r Aelodau'n holi'r Gweinidog.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch a fydd asesiadau'n cael eu cynnal ar gynlluniau datblygu a'u heffaith cronnol o ran colli carbon o'r pridd yn yr ucheldiroedd.

### 4: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5

4.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(iv), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, i drafod materion yn ymwneud ag adroddiad roeddent yn bwriadu ei chyhoeddi.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

### 5: Ymchwiliad i Les Anifeiliaid a Hylendid Cig: Trafod y prif faterion dan sylw

5.1 Trafododd y Pwyllgor y prif faterion a oedd yn deillio o'r ymchwiliad i les anifeiliaid a hylendid cig.